# DINESYDD Ionawr/Chwefror

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1980

RHIF 64


# YN Y DYFROEDD MAWR — HEB RYBUDD

**Bydd pobol ardaloedd Treganna a Glanyrafon yng Nghaerdydd yn cofio gŵyl y Nadolig 1979 am byth. Nid oherwydd unrhyw neges ysbrydol, nac ychwaith oherwydd gormod o gyfeddach; er bod y ddau beth hyn wedi bod yn rhan ohoni. Ddydd Iau, ddeuddydd ar ôl y Nadolig, fe ledodd afon Taf ar draws y dolydd isel lle saif ardaloedd gorllewinol y ddinas, yn ddŵr brwnt ac yn llaid drewllyd. Drwy'r prynhawn, cododd lefel y dŵr. Erbyn hanner awr wedi chwech y nos roedd y llyn wedi cyrraedd gwaelod Heol Llandaf, dros filltir o'r afon. Roedd gerddi Sophia a Phontcanna, a Glanyrafon hyd ben pellaf Heol Parc Ninian, yn un môr mawr.**

Roedd tyrfa yn sefyll y tu fas i'r Corporation ar Heol y Bontfaen, yn aros i weld a ddeuai'r llif yn nes at eu tai nhw. Daeth haid o fechgyn, bob un â'i ganw, a dyma ddechrau ras ar hyd un o brif strydoedd siopa Caerdydd. Ambell gwch bach wedi ei glymu wrth bolyn y goleuadau, a'r rheini'n dal i droi — coch, melyn, gwyrdd — er nad oedd modd i'r un modur ufuddhau i'w gorchymyn.

Cychod pren wedi cael dod mas o'r llyn ym mharc y Rhath, yn cario pobl oedd wedi eu dal yn eu cartrefi gan y dŵr. Ac wrth i ragor o bobl ymgasglu ar y sgwar, hanesion am yr hyn oedd i'w weld i lawr yng Nglanyrafon, neu draw ym Mhontcanna. 'Cerdded yn y dŵr 'hyd 'y ngheseiliau', 'y llif wedi mynd dros ben yr un bach, a thadcu wedi 'i achub a'i gario lan llofft,' 'amhosib croesi'r afon — pob un bont wedi'i chau ar hyd yr afon Taf.'

Erbyn hyn mae pobl wedi hen lanhau'r tai. Mae peth o'r celfi wedi mynd gyda'r cert sbwriel, a'r siopau wedi ail-agor ac yn hysbysebu 'Sale — Flood damaged goods'. A gan fod y gwaith trymaf wedi ei gwpla, mae gan bobl amser i ddechrau meddwl. Pam na chelon ni rybudd inni gael symud y celfi? Ble'r oedd dynion y cyngor?

Eu dadl nhw yw bod y llifogydd wedi dod i Ferthyr ac i flaen y Rhondda ganol y bore — ddigwyddodd fawr ddim yn y brifddinas tan ganol y prynhawn. Ac eto ni chafwyd rhybudd bod y dŵr ar ei ffordd i lawr afonydd serth, cyflym, y cymoedd. Fe gawn weld faint fydd llwyddiant pobl Glanyrafon a Threganna wrth ymladd am iawndal gan gyngor y ddinas a'r cyngor sir. Edrychwn ymlaen at weld cynllun mawreddog yr Awdurdod Dŵr i ddiogelu Caerdydd rhag llifogydd yn dod i fodolaeth. Ac edrychwn ymlaen hefyd â rhyw damaid bach o ofn at y flwyddyn 2000 — oherwydd ym 1960 y digwyddodd hyn ddiwethaf......




## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERDYDD

Na, nid genedigaeth y newydd, ond pennod olaf yr hen!

Mae'n amhosibl dweud pa bryd y daw Eisteddfod i ben. I rai, daw i'w therfyn ar ôl y Gymanfa Ganu ar y nos Sul, ond i eraill, mae swm enfawr o waith ar ôl, a'r gwaith olaf yw cael dau pen llinyn ynghyd — a chlymu'r sefyllfa ariannol yn dwt ac yn deidi. Nes i'r cwlwm hwnnw gael ei glymu, ni ellir dweud ei bod wedi gorffen.

Mewn pwyllgor ar Ionawr 17 1980, yn Neuadd y Ddinas, Cydbwyllgor Cyllid a Gwaith, cyflwynwyd y fantolen ariannol derfynol — sydd, yn anffodus, yn dangos colled o tua £25,000. Mae pawb yn cytuno mai colled ariannol yn unig a fu. Bu'n llwyddiant mewn sawl maes arall.

# *Golygyddol*

**Ar ddechrau blwyddyn newydd a'r wythdegau, mae'n byd ni yng Nghymru yn edrych yn dywyllach nag yr edrychodd ers hanner can mlynedd. Ar bob llaw gwelir cyfnewidiadau enfawr yn digwydd, a symud yn ôl i'r agwedd meddwl "Trechaf treisied, gwannaf gweidded" oedd yn bod ymhlith ein rheolwyr yn yr ugeiniau a'r tridegau cynnar.' Mae'n sicr mai dyma'r llywodraeth fwyaf haearnaidd a gofia neb fydd yn llai na hanner cant oed eleni, ac y mae'r hyn a addewir am y flwyddyn nesaf yn waeth fyth. Cawn wybod y bennod nesaf yn y stori erchyll hon ar Fawrth 26 pan gyflwynir y gyllideb wedi gohiriad o ddiwrnod oherwydd seremoni gorseddu Archesgob Caergaint ar y 25ain.**

**Ai er mwyn erfyn gras — a maddeuant — y penderfynodd y llywodraeth ohirio? Byddai'n demtasiwn anfeidrol o fach i gredu hynny pe bai'r driniaeth a arfaethir yn fwy cytbwys i bob rhan o gymdeithas ond nid felly y mae. Ochr yn ochr, fe welir darparu mesurau fydd yn dwyn oddiar y mwyafrif cymedrol neu wael eu byd er mwyn rhoi mwy byth i'r da eu byd. Gwelir hyn yn myd trethi, addysg, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.**

**Ar ben hyn oll, bydd polisi ariannol y llywodraeth yn taro'n ddiddrugaredd ar ddiwydiant a'r economi yn gyffredinol — ac yr ydym ar drothwy cyfnod pan welir nid gwanhau ond, o bosib, ddistrywio dau ddiwydiant a fu'n brif bileri'r economi yng Nghymru ers cenedlaethau, sef haearn a glo. Sonnir eisoes am golli hyd at 50,000 o swyddi yn sgil hynny, a gall y canlyniadau fod yn ergyd echrydus yn erbyn ein cymdeithas a'n diwylliant drwy lifeiriant o ddiboblogi o'r cymoedd o gwmpas Caerdydd a llawer o fannau eraill.**

**Mae eisoes lawer arwydd bod trwch y boblogaeth yn dechrau sylweddoli hyn oll. Rhaid inni, bawb ohonom, baratoi am ymdrech galed iawn.**

# O'R POST

Caereuni,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd.

Annwyl Olygydd,

Fel y gŵyr y rhai o'ch darllenwyr fu yng Nghynhadledd Flynyddol Plaid Cymru yn Llandudno fis Hydref diwethaf, mae cartref Mr H.R. Jones yn Neiniolen ar werth. H.R. Jones oedd Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf Plaid Cymru yn ugeiniau'r ganrif hon, ac un o'r rhai fu'n brysur yn gosod sylfeini'r blaid.

Dymuniad Cymdeithas Tai Gwynedd yw prynu'r tŷ hwn, yn hytrach na chaniatau iddo syrthio i ddwylo estroniaid, ei adnewyddu a'i osod i deulu lleol. Er mwyn sicrhau fod y wybodaeth am orffennol y tŷ yn cael y sylw dyladwy, y bwriad yw gosod llechfaen ar y mur yn cofnodi'r ffaith.

Yn anffodus, nid yw coffrau Cymdeithas Tai Gwynedd yr hyn yr hoffem iddynt fod ar hyn o bryd. Mae angen mwy o gyfalaf eto i sicrhau fod y pryniant pwysig hwn yn digwydd. Hoffwn wneud apêl ar i bawb sy'n teimlo fod hwn yn fater pwysig, ac sydd am wneud rhywbeth i'n cynorthwyo, anfon arian i "Cymdeithas Tai Gwynedd — Cronfa H.R. Jones". Gellir gwneud benthyciad di-log, neu fuddsoddiad fydd yn denu'r llog arferol, neu gwell fyth o safbwynt y Gymdeithas, rhodd i'r Gronfa.

Anfonwch eich cyfraniadau, neu am fwy o fanylion, at Ddafydd Iwan, Trefnydd Cymdeithas Tai Gwynedd, Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon.

Diolch yn fawr iawn.
Yn gywir,
Ieuan Parri.
(Cadeirydd Cymdeithas Tai Gwynedd)

# O'R POST

## ANRHYDEDD

**I Gwilym Roberts Ysw., M.A. ar achlysur ei gydnabod gan y Brifysgol Agored.**

**Cyflwynwn heddiw iti
Gyfarchion dirifedi
O gymoedd Gwent; yn rhad a rhydd
Fe ddathlwn ddydd dy noddi.**

**Wyt frenin y gwersyllwyr,
Wyt arwr llu o ddysgwyr,
Wyt hynod ŵr, wyt ryfedd ddyn,
Wyt eilun y twmpathwyr.**

**Wyt 'Feistr er Anrhydedd',
Wyt destun ein gorfoledd,
Wyt wron dewr, wyt lon dy gân,
Wyt Wilym glân dy fuchedd.**

**Gwynn Tudno,
Casnewydd.**

---

**169 Heol Caerdydd,
Nantdwyrain,
Dinas Powys.**

**Annwyl Olygydd,**

**I chwi a'ch holl swyddogion,
Fy hoff olygydd rhadlon,
Rwy'n estyn diolch, a chwyn bach
Am strach newyddiaduron.**

**Mis Rhagfyr oedd y rhifyn
Lle gwnaethpwyd cam â Rhysyn
Ar ddalen pump yn glîr a bras,
Mewn print ar gas fisolyn.**

**Wel diolch ich am brinto
Fy enw, unwaith eto,
Ond gan eich papur cefais gam,
Mae nam ymhlith y sbelo.**

**Bu llawer sôn amdano,
Rhwng 'nhad a mam roedd brwydro
I weled os oedd l neu ll
Yn Wiliam; gwell egluro:**

**Un l sy'n eiddo'r prydydd
Nid dwy fel dwêd Dinesydd,
A Wiliam Rhys fy enw fydd
Bob dydd ac yn dragywydd.**

**Wiliam Rhys a'i cant,
Rhagfyr 1979.**

---

### Wlpan y Ganolfan

Wedi deuddeg wythnos o waith caled daeth Wlpan 13 i ben ar nos Wener y 7 fed o Ragfyr. Bu 14 ar y cwrs ac erbyn y diwedd roedd pob un yn gallu cynnal sgwrs bob dydd yn Gymraeg. Bydd aelodau'r Wlpan yn dychwelyd i'r Ganolfan y tymor nesa i barhau eu gwaith ond dim ond ar un noson yr wythnos yn hytrach na'r pump noson o'r wythnos pan oedden nhw ar y cwrs arbennig! Roedd naw o athrawon yn gweithio'n wirfoddol ar y Cwrs sef Meirlys a Heulwen Davies, Gwilym Roberts, Iolo Walters a Gwyneth Phillips, Dic James, Alun Treharne, Cen a Marilyn Cên. Bydd cwrs Wlpan arall yn y Ganolfan Fis Medi nesa ac felly os ydych chi'n gwybod am bobl sy â diddordeb ffoniwch neu sgrifennwch at Warden Canolfan yr Urdd i roi gwybod iddo fe. (Caerdydd 36201)

# COLOFN Shân Emlyn

**"Gwnes addunedau fil
I gadw'r llwybyr cul
Ond methu 'rwyf."**

**Mae'n debyg ar ddechrau blwyddyn mai rhyw agoriad fel hyn ddylai fod yn fy ngholofn. Wel, nid wyf yn gwneud addunedau fil — ac aeth yr un neu ddwy a wnes yn chwilfriw cyn i'r wythnos gynta gynhesu. Felly, dyma ymwrthod â'r testun yna. Be sy gen i i'w ddweud ta? Dim — a deud y gwir — dim ond rhyw siarad a meddwl yn uchel ar bapur. I be? — I bwy — A oes ots? Wn i ddim!**

Y mae un llythyrwr yn Y Dinesydd yn deud nad yw y papur na'i gyfranwyr yn dda i ddim i neb. Diolch fyth bod rhywun yn magu plisgyn go galed: petawn yn gwrando arno fo a'i debyg mi swatiwn yn y gwely a'r dillad dros fy mhen weddill fy nyddiau. Cymwynas â'r genedl, dybiai'r llythyrwr mae'n debyg. Ond na — ni wnaf i na'm tebyg ildio i feirniadaeth boed hi'n deg ai peidio! Diolch bod 'na bobol sy'n fodlon dyfalbarhau, yn ôl eu goleuni nhw, i frwydro dros yr iaith mewn llawer dull a modd.

Wyddoch chi be? Mi greda i mai dyfodol digon du sydd inni fel Cymry Cymraeg yn yr wythdegau a gorau po gynt i ni i gyd sylweddoli bod llawer sgil i gael Wil i'w wely ac mi ryda ni'n griw mor fach fel bo angen pob sgil. Fy nymuniad i ar ddechrau blwyddyn yw ein bod yn magu parch at ein gilydd yn ein hamryfal ddulliau o geisio cyfrannu at y bywyd Cymraeg. Pawb at y peth y bo ynte?

Y mae gen i nifer o ddiddordebau a phob un mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn gysylltiedig â rhyw agwedd o Gymreictod. Nid ydynt at ddant pawb; er enghraifft Cymdeithas Alawon Gwerin — rhan o'n diwylliant y mae angen ei diogelu. Fel un rhamantus ei natur, fe wfftiai llawer at fy niddordeb hyd at fod yn obsesiwn efo Cymry Patagonia ac Undeb y Cymry ar Wasgar. Mwy real a pherthnasol a phwysig, mi dybia i, yw fy nghred mai Mudiad Ysgolion Meithrin yw mudiad pwysica Cymru yn yr wythdegau ynghyd â'r Urdd a Mudiad y Dysgwyr. Mi ryda ni'n griw rhy fach i gynnal y Gymraeg ar ein pen ein hunain ac mae hi'n amen arnom ni os nad allwn genhadu o faes plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n fodlon ymdrechu i ddysgu'r iaith.

Nôl a fi at y Dinesydd. Wrth gwrs mae iddo wendidau amlwg, yn ei gynnwys ac yn ein hanallu i'w gyhoeddi'n brydlon bob mis. Ond Mr Llythyrwr a Darllenwyr, criw bychan digon dibrofiad sy'n 'stachu i ddod ag o allan. Mae'n debyg bod y llythyrwr y cyfeiriaf ato wedi dod â dipyn o sbonc i'r papur — ac er yn naturiol nid wyf yn cytuno af o — croesawaf ei gyfraniad. Anfonwch bwt eto ac efallai y cawn wybod eich enw. Petaech yn cyfrannu'n gyson ac yn adeiladol fe fyddai eich safbwynt chi a'ch tebyg yn cael ei adlewyrchu yn y papur. Hoffwn pe bai llawer mwy o ddarllenwyr y Dinesydd yn anfon pwt — unrhyw hanesyn bach — boed yn farn, yn dro trwstan neu'n adroddiadau o unrhyw ddigwyddiad. Siawns nad oes digon ohonom yma yng Nghaerdydd i gynnal "Y Dinesydd", papur bro hyna Cymru. Mi fuasai'n gas gen i weld y papur yn marw o ddiffyg cefnogaeth ariannol neu o ddiffyg gohebwyr.

Dowch, bobol bach — anfonwch rywbeth i helpu'r criw bach sy'n dal i ddyfalbarhau er pob math o anawsterau, ac ar adegau byliau o anobaith. Pan fo'r iaith fel petae ar fin trengu mae unrhyw weithgarwch ynglŷn â hi'n werth chweil — hyd yn oed os nad yw'n taro deuddeg bob tro.

SHÂN EMLYN

# Cynhyrchwyr HTV!!

Llongyfarchion i Margaret Pritchard ar enedigaeth Angharad fach iddi hi a'i gŵr ddiwedd yr hen flwyddyn.

Llongyfarchion, hefyd, i Mr a Mrs Cenwyn Edwards ar enedigaeth rhywun i chwarae gyda Lowri.

Llongyfarchion i Mr Eifion Lloyd Jones ar ei ddyrchafiad fel Cyfarwyddwyr gyda HTV. Mae wedi bod yn Ohebydd HTV yn y gogledd am amser maith, ac er na fydd o flaen y camerâu o hyn ymlaen, bydd ei gyfraniad yr un mor werthfawr.

# NEWYDDION CWM RHYMNI

**Pobl y Cwm sy wedi fy ysgogi y tro hwn. Na, nid y ddrama gyfres ar y teledu ond rhai o bobl Cwm Rhymni. Y rhai sy wedi llythyru yn y wasg, y rhai sy wedi cyhoeddi ysgrif mewn cylchgrawn, a'r rhai sy wedi bod yn destun eitem yn y wasg ddyddiol ac wythnosol. Gweld enwau rhai o bobl y cwm yn y *Sunday Express, Western Mail, Rhymney Valley Express, Y Goleuad, Porfeydd a Barddas* yn ystod mis Rhagfyr. Cryn gynhaeaf yn wir!**

Yn *Sunday Express* cynta'r mis cafwyd sôn am VICKI RAWLINGS, yr athrawes ymarfer corff yn Ysgol Gyfun Bedwas. Mae hi yn un o dair chwaer o Fargoed sy wedi gwneud cryn enw iddynt eu hunain yn chwarae golff. Mae'r chwaer ieuenga, Mandy, yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Yn yr erthygl fer yn y papur crybwyllir fod gan Vicki gyfle gwych i gael ei dewis yn aelod o dîm Cwpan Curtis i chwarae'r Unol Daleithiau ym Mis Mehefin nesaf. Mae pobl Bargoed yn croesi eu bysedd drosti.

Ganol y mis roedd Westgate yn tynnu sylw yn ei golofn yn y *Western Mail* at waith yr awdur WALTER HAYDN DAVIES, sy'n wreiddiol o Fedlinog ond nawr yn byw ym Margoed a'i gasgliad arbennig o faledi'r Maes Glo. Mae Mr Davies wedi casglu dros drigain ohonynt a mae'n gofyn am gymorth i ddod o hyd i fwy canys mae'n fwriad ganddo gyhoeddi llyfr ar y pwnc ynghyd â chasetiau. Diddorol yn wir, ynte! Diwedd y mis yn yr un papur roedd CLIVE JAMES, Caerffili, mewn llythyr yn gofyn am gymorth i chwarae rhyw fonopoli Doriaidd. Gobeithio'n fawr fod rhywun yn y dre neu'r cwm wedi ei gynorthwyo i ennill pedair miliwn o bunnau tuag at y bedwaredd sianel.

Gwelwyd hefyd ei enw ymhlith y rhai sy'n cynorthwyo Cynllun *Barn* i gasglu arian at y Genedlaethol. Hyderir yn fawr fod ganddo gêm gyffelyb i fyny ei lawes; ni fydd yn rhaid i neb boeni wedyn am ochr ariannol ein Heisteddfod Genedlaethol!

Yn rhifyn ola'r flwyddyn o'r *Rhymney Valley Express* roedd chwaer fawr y golofn hon, Colofn Gymraeg y papur, yn talu teyrnged gyfeillgar i Mrs Lili Richards, Caerffili. Yn yr un rhifyn cafwyd adroddiad hynod o bwysig yn Saesneg fod Cymdeithas Gymraeg gan y Dysgwyr wedi cael ei sefydlu ym Margoed dan arweiniad Andrew Richards, 15 Clôs Dewi Sant, Penpedairheol yn gadeirydd, Clive Williams, 153 Ffordd Bedwellty, Aberbargoed yn ysgrifennydd a Byron Slide, 20 Gwerthonor Road, Gilfach, Bargoed yn drysorydd. Mae brwdfrydedd y gwŷr hyn a'u cyfeillion yn heintus a dweud y gwir ac y maent yn haeddu cefnogaeth frwd. Byw mewn gobaith y byddant yn ei chael. Llongyfarchiadau iddynt ar y fentr. Yn sgil hyn rhaid eu llongyfarch o waelod calon hefyd am guro Caerffili a Chanolfan Dysgu Cymraeg Caerdydd yng nghwis y Dysgwyr a drefnwyd gan Gymdeithas Gymraeg Caerffili ym mis Tachwedd. Er nad oeddynt yn adnabod llun pont Caerfyrddin, diolch eu bod yn adnabod Castell Caerdydd i sicrhau y fuddugoliaeth gyda'r cwestiwn olaf un! Yn y Goleuad, rhifyn Nadolig, yn y golofn Taro Post cyhoeddwyd llythyr gan Mr Enoch Davies, Hengoed yn talu teyrnged haeddiannol i Mrs Llewela Morris am ei gwasanaeth parod a diflino fel organyddes Capel Seilo (M.C.) Ystrad Mynach am dros ddeugain mlynedd. Mae hefyd yn holi ai Mrs Morris, sy'n 85 oed, ydy'r organydd hynaf yn y Cyfundeb. Bydd rhaid cadw llygaid ar y golofn lythyrau i weld ai Cwm Rhymni fydd yn cadw'r record.

I law hefyd dros y Nadolig y daeth Porfeydd — cylchgrawn Cristnogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a ddaw allan bob yn ddeufis. Mae'r rhifyn cyfredol yn un diddorol i Gwm Rhymni oherwydd ceir ysgrif gan y Parchedig Gwilym Morris, Caerffili ar 'Feibion Y Mans' ynddo. Ysgrif yn codi'n naturiol o'r galon ac yn byrlymu o hiwmor iach ydy hi. Er enghraifft: "...parhau am gryn amser a wnai'r canolfur gwahaniaethol rhwng y plant cyffredin a'r 'Minister's Son'. Ymhlith llawer o resymau dyma ddau — Cofiaf y postman yntau'n gymeriad lleol hwnnw'n dweud wrtho i 'It's in you house and Professor Griffith John Williams' house I call most often during the week except on...' ac fe enwodd y

**(i dud 5)**

## HER I DDARPAR ATHRAWON YR WYTHDEGAU

Coleg y Drindod,
Caerfyrddin.

Annwyl Ieuenctid,

Er bod llawer o sôn am brinder swyddi i athrawon, mae'n edrych yn debyg y bydd yna brinder athrawon dwyieithog yn y dyfodol. Os yw'r Gymraeg i ffynnu rhaid cael athrawon dwyieithog da, a dyma'ch cyfle. Yng Ngholeg y Drindod cewch ddilyn cyrsiau Diploma Addysg Uwch a gradd B.Add. gan arbenigo mewn Addysg Ddwyieithog — gradd newydd gyffrous wedi'i threfnu'n arbennig ar gyfer dysgu yng Nghymru. Mae yma her i chi — ymatebwch iddi.

Neu fe ellwch ddilyn gradd B.A. drwy'r Gymraeg gan gyfuno astudiaeth o Lenyddiaeth Gymraeg, Hanes Cymru ac Addysg Crefydd — sylfaen da i fynd ymlaen am gwrs pellach i'ch cymhwyso ar gyfer amrywiol swyddi yng Nghymru.

Mae'r Coleg yn cynnig llety mewn neuadd i bob myfyriwr; awyrgylch Gymreig mewn Coleg a thref bwysig yn y Gorllewin a gofal staff fydd â diddordeb ynoch fel unigolion.

Fe gewch fanylion pellach ond i chi anfon at y Cofrestrydd yn y Coleg.

Yn gywir,
K. Mansel J. Jones,
Prifathro.


**GWAHODDIAD I GYMRY IFAINC**

Dowch i Goleg y Drindod Caerfyrddin ym Medi 1980

**Cyrsiau:**
Diploma Addysg Uwch
Gradd B. Add. (Addysg Ddwyieithog)
Gradd B.A. (Astudio'r Amgylchfyd)
Gradd B.A. (Astudiaethau o'r 19eg a'r 20fed ganrif - Saesneg neu Gymraeg gyda Hanes ac Addysg Crefydd), Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Gradd B. Add. (Cyffredinol ac Anhydedd)

Cyrsiau dwyieithog, Awyrgylch Gymreig, Llety i bawb yn y Coleg
Adnoddau dysgu rhagorol

Anfonwch am fanylion at y Cofrestrydd.


# ATEB I "SENEX"

Trwy gyd-ddigwyddaid rhyfedd a hapus, ychydig ddyddiau ar ôl derbyn ymholiad gan un o'n darllenwyr, "SENEX", fe ymddangosodd rhifyn Rhagfyr o'r cylchgrawn *Which*. Ac yn hwnnw (ar dudalen 693 o *Money Which*) wele erthygl yn dwyn y teitl *Cashing-in on your home*, a all fod o fudd i nifer o'u darllenwyr.

Mae'r erthygl yn rhoddi gwybodaeth gynhwysfawr am y cynlluniau a gynigir gan dri chwmni, ac am y telerau. Mae tablau yn dangos yr oed isaf y gellwch ymgymryd â'r cynllun a'r incwm tebygol (yn rhydd o dreth incwm) a gewch, yn ôl eich oed yn ymgymryd â'r cynllun; e.e. mae hi'n bosib i ddyn sy'n 70 oed ychwanegu £1,000 at ei incwm (ar ôl tynnu treth incwm) os yw ei dŷ yn werth £25,000.

Mae'r erthygl hefyd yn pwyso yn deg iawn y manteision a'r anfanteision o godi arian ar werth eich tŷ (neu ran ohono) yn y dull hwn.

Byddwn ni yn tybio, "SENEX", mai eich llwybr gorau fyddai gofyn am olwg ar rifyn Rhagfyr o'r cylchgrawn *Which* yn eich llyfrgell gyhoeddus a darllen yr erthygl yn ofalus. Os bydd yn apelio atoch, codwch gopi ohono, (nid yw ond dwy golofn o erthygl) ac os oes gennych gynghorwr ariannol, (e.e. rheolwr eich banc), mynnwch air ag ef.

## DAVID JONES LETTERS TO A FRIEND

Dyna deitl llyfr a gyhoeddwyd ar gyfer y farchnad Nadolig, sef cyfrol ddiweddaraf Mr Aneirin Talfan Davies. Roedd Mr Davies a David Jones yn ffrindiau mynwesol, ac mae'r llythyron yma'n dyst o hynny. Cyfrol fach hwylus, gwerth ei darllen.

### CROESO I'R DDINAS

Croeso i'r ddinas i Ms Enyd Williams — yr holl ffordd o Lundain, lle yr oedd yn gweithio gyda'r BBC. Mae Ms Williams yn para i weithio gyda'r BBC ond hi yn awr fydd â'r gofal am gynhyrchion drama radio sain yma yng Nghaerdydd — gobaith, felly, am fwy o ddramâu radio ar ein setiau. Mae rhieni Ms Williams â'u gwreiddiau ym Mhenisa'r-waun a Harlech, ond fe'i ganwyd hi yn Lerpwl. Hyderwn y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

### DECHRAU GWAITH

Llongyfarchion i Miss Llinos Williams, St. John's Crescent, ar gael ei phenodi'n Rheolwr Llawr Cynorthwyol gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Mae Miss Williams wedi cwblhau cwrs gradd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Dymunwn bob hwyl iddi yn ei gyrfa gyda'r Gorfforaeth.





**Ffenestr-siop**
**Y SIOP I CHI...**

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hir-bwrcas?

Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.

**CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU**

Heol Curran, Caerdydd, tel. [illegible]
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach

JONWINDOWS

— [illegible] JWI
(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)

# EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD

## TACHWEDD 10, NEUADD RHIWBEINA

**Cafwyd wyth awr o steddfota brwd yn Neuadd Rhiwbeina ar Dachwedd 10 ac er na fu cadeirio fe argoela'r eisteddfod y flwyddyn nesaf yn ddigwyddiad bondibethma.**

**Ar fyr rybudd y trefwyd yr eisteddfod fawreddog gan bwyllgor Cyfeillion y Theatr ond profodd yr ymateb, yn arbennig o Ysgol Glantaf, y gellir bod yn fwy uchelgeisiol y flwyddyn nesaf.**

**Ni chafodd y beirniaid fawr o gyfle i segura — Gwyn Erfyl (adrodd), Iwan Guy (cerdd), T. Arfon Williams (barddoniaeth) ac Ifan Wyn Williams (rhyddiaith). A'r un mor brysur roedd W.J. Jones boed yn stiwardio, yn torri brechdanau ciwcymber i'r beirniaid neu yn sbarduno ei gyd-aelodau o'r pwyllgor. Arweiniwyd i gweithgareddau gan Robin Jones a'r cyfeilydd oedd Huw Thomas.**

## BUDDUGWYR

| | | |
|---|---|---|
| Unawd dan 12; | 1 | Tracy Mathias. |
| | 2 | Meryl Goodfellow. |
| | 3 | Eiry Thomas. |
| Unawd Cân Werin dan 12; | 1 | Nia Rees. |
| Unawd Offerynnol dan 12; | 1 | Ffion |
| | 2 | Brengain Stephens. |
| | 3 | Gwenllian Rhys. |
| Unawd Piano; | 1 | Ruth Davies. |
| | 2 | Angharad Jones. |
| | 3 | Eleri Jones/Bethan Williams. |
| Côr dan 12; | 1 | Ysgol Glantaf. |
| Adrodd dan 9 (Cymry Cymraeg) | 1 | Rhianne Griffiths. |
| | 2 | Simon Roome. |
| | 3 | Leslie Davies. |
| Adrodd dan 9 (dysgwyr); | 1 | Joseph Champris. |
| Adrodd dan 12 (Cymry Cymraeg) | 1 | Marged Price. |
| | 2 | Heledd Stephens. |
| | 3 | Hawys Ogwen. |
| Adrodd dan 12 (dysgwyr); | 1 | Maria Pride. |
| | 2 | Nicola Pierce. |
| | 3 | Julie Bolderson. |
| Cyd-adrodd dan 12; | 1 | Ysgol Glantaf. |
| Ysgrifennu Stori dan 12; | 1 | Hawys Ogwen. |
| | 2 | Menna Daniel. |
| | 3 | Elin Angharad. |
| Ysgrifennu Cerdd dan 12; | 1 | Esther Whitfield. |
| | 2 | Catherine Owens. |
| | 3 | Siân Dafydd. |
| Unawd 12 i 15; | 1 | Rowland Howell. |
| | 2 | Tracey Jones. |
| | 3 | Tony Lloyd. |
| Unawd Cerdd Dant; | 1 | Ceri Innes. |
| Unawd Offerynnol 12 i 15; | 1 | Bethan Elinor Harries. |
| | 2 | Gethin Rees. |
| | 3 | Iwan Price/Elaine. |
| Deuawd 12 i 18; | 1 | Marged ac Eiry. |
| | 2 | Ffion ac Elisabeth. |
| | 3 | Carol a Siân. |
| Adrodd dan 15 oed; | 1 | Betsan Powys. |
| | 2 | Lowri Stephens. |
| | 3 | Eleri Morgan. |
| Parti Cydadrodd 12 i 15; | 1 | Ysgol Llanhari. |
| Ysgrifennu Stori dan 15; | 1 | Huw Meirion Edwards. |
| | 2 | Mark Edwards. |
| | 3 | Luned Whelan/Rhys Llwyd y Lleuad. |
| Her Unawd; | 1 | Arwel George. |
| Unawd Cân Werin; | 1 | Bethan Harries. |
| Unawd Piano; | 1 | Rupert Dussman. |
| Deuawd; | 1 | Delyth Evans/Arwel George. |
| | 2 | Euros ac Eirlys. |
| | 3 | Gillian a Rhiannon. |
| Pedwarawd; | 1 | Pedwarawd Arwel. |
| | 2 | Pedwarawd Delyth. |
| Unawd Cân Bop; | | Elin ap Robert. |
| Grŵp Pop; | 1 | Casbach |
| | 2 | Ni. |
| Parti Cerdd Dant; | 1 | (hanner y wobr) Parti Aelwyd Caerdydd. |
| Darllen ar y pryd (cerddoriaeth); | 1 | Delyth Evans. |
| | 2 | Arwel George/Huw Thomas. |
| Darn heb Atalnodi; | 1 | Mallt Anderson. |
| | 2 | Gwilym Humphreys/Susie Evans. |
| Cyflwyniad Llafar; | 1 | Ysgol Llanhari/Aelwyd Caerdydd. |
| Côr | 1 | Aelwyd Caerdydd. |
| Englyn; 'Meddyliau' | 1 | Alun Ogwen/J. Lloyd Jones, Llandysul. |
| Englyn Digri; 'Beddargraff Fflyrt' | 1 | J. Lloyd Jones. |
| Gorffen Limrig; | 1 | Peredur Evans/G. Jones, Castell Newydd Emlyn. |
| Brawddeg ar y gair 'Dagrau'; | 1 | J. Idris Evans. |
| Stori Fer; 'Y Llythyr' | 1 | W.J. Jones. |
| Ysgrif; 'Cydwybod' | 1 | Susie Evans. |
| Stori ar ffurf llythyron; | 1 | Rhian Rowe, Llanelli. |
| Ysgrif Daith; | 1 | D. Watkin Powell. |
| Y Gadair; | | Tair Telyneg - Neb y Deilwng. |
| Telyneg; 'Chwant' neu 'Gwywo' | 1 | W.J. Jones. |

Y Frawddeg Fuddugol;
Delyth a gegws Robin a ufuddhews.
Rhai o'r cynigion eraill:
Dewch a gwnewch rywbeth am unwaith.
Dylai awdurdodau Gwalia roi arwyddion uniaith.
Deisyfwn Gymru Rydd ar unwaith.

Englyn Digri Buddugol;
Beddargraff Fflyrt.
Addien o wedd ydoedd Nan, — hwyl ei winc
A wnai lanciau'n benwan;
Hudai'r llu o dre allan,
Mae heno yma'i hunan.
J. Lloyd Jones, Llandysul.

Limrig Buddugol;
Hen lanc cydwybodol oedd Deio
A fentrod un nos i gasino;
Agorwyd ei lygaid
O weld diaconiaid
Y Crwys gyda'r merched yn potio.
Peredur Evans (Pwt)

Hen lanc cydwybodol oedd Deio
A fentrodd un nos i gasino,
Agorwyd ei lygaid,
Gweld dynion fel defaid
Mor barod o blaid cael eu cneifio.
G. Jones, Castell Newydd Emlyn.


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS
GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL

# DWY ADEN COLOMEN

**Syniwn, fel llawer un arall, am ffansiwyr, bridwyr a raswyr colomennod, yn wŷr yn gwisgo cap brethyn a mwffler, ac yn dechrau pob brawddeg gyda'r ymadrodd 'I-i, ba gwm'.**

Hyd nes i mi gwrdd â Mr Emrys Jones, y Barri. O graffu arno, gwelid gŵr golygus, trwsiadus a digyffro. Dichon mai'r ffaith fy mod yn gwybod ei fod yn fferyllydd ffyniannus sy'n peri i mi nodi bod golwg broffesiynol arno, a dyfalu mai'i addysg wyddonol sydd y tu ôl i'w lwyddiant syfrdanol wrth fridio colomennod sydd wedi ennill ffortiwn — mewn gwobrau, tlysau ac arian. Yn ôl Emrys ei hun, sylfaen ei lwyddiant yw'r ceiliog sydd bellach wedi mynd yn ddihareb ym myd y colomennod, sef Coch-y-bonddu, a da y canodd J Ieuan Jones i'r aderyn hwn:

**Y golomen fyd-enwog — rhoi i'w hil**
**Her ei waed cyfoethog,**
**Doniau ei straen adeiniog;**
**Ei sêr ddaw â llawer llog.**

Cylch esoterig ddigon ydyw eiddo colomenwyr, a theg felly ydyw gofyn pwy **yw** Emrys Jones, a beth yw ei le yn y cwmni dethol gyda'i dermau technegol arbennig — a'i gyfrinachau hefyd! Gallwn feddwl mai brawdoliaeth go glos ydyw, a'r ffansiwyr yn adnabod ei gilydd yn dda. Yn eu plith nid oes neb a berchir yn fwy nag Emrys Jones — **'One of the top fanciers of our time'**, ebe un awdurdod amdano, a'r 'time' heb fod yn gyfyngedig i Gymru, ond i'r holl fyd. Teg yw ychwanegu nad yw Emrys yn 'top fancier', ond hefyd yn un o'r prif awdurdodau.

Brodor o Dalsarnau ydyw Emrys Jones, a'i gartref ryw ddwy filltir o'r Lasynys. Aeth o ysgol leol Talsarnau i ysgol ramadeg Y Bermo lle yr oedd E Pugh Parry'n brifathro. Hyd yn oed yr adeg honno yr oedd gan Emrys ddiddordeb mewn ornitholeg, ond heb freuddwydio am y campau a'i gwnai yn fyd-enwog. Wedi gorffen ei gwrs yn Y Bermo aeth i fwrw prentisiaeth fferyllyddol ym Mhenrhyndeudraeth. Wedyn bu am chwe blynedd yn y llu awyr, a phan oedd yng Nghaersalem yr oedd yn ohebydd i **Seren y Dwyrain.** Pan gafodd ei draed yn rhydd aeth i Goleg Caerdydd lle y graddiodd yn M.P.S., a mynd i agor busnes yng Nghasnewydd. Yno, ym 1965, y dechreuodd golomenna, fwy neu lai trwy ddamwain. Yr oedd ei blant am gael anifail anwes, ond ni chaniatáu rheolau cadwraeth tai yn y rhan honno o'r dref gadw na chi na chath yn y tai. Ond llwyddodd ei frawd i osgoi'r rheol drwy ddanfon pâr o golomennod at y plant. Buont yn hir ddisgwyl am wy, ond ni ddaeth un. Nid oedd hyn i'w ryfeddu, gan nad yw natur, hyd yn hyn, wedi dyfeisio peirianwaith i geiliog ddodwy.

Ac yna deffrowyd diddordeb Emrys: diddordeb deallus. Credaf fod LaVerne Schumann yn llygaid ei le wrth awgrymu bod llawer o'r llwyddiant yn deillio o hoffter ei golomennod o Emrys, a'i hoffter yntau ohonynt hwy. Nid ymddiddora'r adar hyn o gwbl yn y ceir sy'n mynd heibio i'w cartref, Tir na Nog, ar lan aber Afon Hafren, ond cyn gynted ag y clywant sŵn car eu meistr dechreuant ymfywiocáu a chynhyrfu. Gofynnais iddo ba un o gampau'r adar a roes fwyaf o bleser iddo. 'Ennill Tlws y Frenhines — ddwywaith'. Rhoddir y tlws arbennig hwn i'r golomen orau yng Nghymru mewn ehedfeydd dros 300 milltir. A dylid ychwanegu nad oes neb arall yn y wlad wedi ennill y tlws hwn fwy nag unwaith.

Yng ngwlad Pwyl mentrodd Emrys, ym 1969, ddangos campau'r adar am gampwriaeth y byd, ac oddi ar hynny enillodd ddau fathodyn aur, pedwar arian ac un efydd yn Olympiad y Colomennod. Ond dyna! Byddai rhestru'i holl fuddugoliaethau'n galw am lawer mwy o ofod nag a ganiateir yma.

Llwyddodd y Cymro hwn i fridio a datblygu straen arbennig



Llun Teledu Harlech

**Mr Emrys Jones o Sili ger y Barri**

drwy nodi'n ofalus nodweddion blaengar a chilyddod ei 'deulu', a'u paru'n ddoeth — nid bychan o gamp o gofio bod colomennod yn paru am oes. Yn straen Emrys Jones gwelir bod pob ceiliog ac iâr yn dwyn enwau Cymraeg: Gwenno, Arianwen, Coch-y-bonddu, Barry John ac ati. Yr unig eithriad y sylwais arni ydoedd mab Gwenno a Boneddwr, sef Olympic Atomium a enillodd y fedal aur yn Olympiad Brussels ym 1971.

Caiff adar Emrys ddigon o ehedeg caled. Treuliant gryn dipyn o'u hamser ar lan y môr. Tybed a oes a fynno'r gwymon a bwyd y môr â'u campau?

Nid bridio a hedeg colomennod yn unig a wna Emrys. Y mae'i gyngor a'i help yn y maes at wasanaeth pawb o'r ffyddloniaid, ac y mae wedi gwneud cryn enw iddo'i hun fel meddyg adar — gwnïo archollion a gosod esgeiriau toredig. A, bid siwr, y mae cryn alw am ei wasanaeth fel beirniad. Ond cyn belled ag y gallwn i farnau nid oes ganddo gymaint â hynny o olwg ar fridio colomennod er mwyn eu hymddangosiad yn unig. Canolbwyntio ar y nodweddion sy'n cynhyrchu ehedwyr da a wna ef.

Pan euthum o'i ystordy enfawr a'i stoc anhygoel o gyffuriau o bob math yr oedd fy mhen yn troi gan dryblith y ffeithiau a glywswm — y dull y try'r adar yn ddi-feth tua'u cartref o bellter o chwe chan milltir; dylanwad y gwynt a'r tywydd ar eu hedeg; cyfansoddiad a lleoliad y llygaid; yr ystadegau a'r termau technegol. 'Adenydd colomen pe cawn', murmurais wrth wynebu'r tywydd. A phetai dyhead yr emynydd yn cael ei sylweddoli yn f'achos i, a minnau'n cyfarfod â rhyw anghaffael, mi anelwn yn syth at Emrys Jones: y mae'n gystal fferyllydd ag yw o fridiwr a meddyg colomennod.

Glyn Ashton, Y Barri.

# Naws y Nadolig

Cynhaliwyd cyfarfod dan yr enw 'Naws y Nadolig' yng Nghanolfan yr Urdd ar nos Fercher y 12fed o Ragfyr. Daeth tyrfa ynghyd i fwynhau noson ganu carolau a chlywed am arferion y Nadolig. Siaradodd Roy Saer, pennaeth Adran Lên Gwerin Amgueddfa Sain Ffagan ar draddodiad 'Y Plygain' a chyrhaeddodd Dai James o Barti Dawns Aelwyd Caerdydd gyda phen 'Y Fari Lwyd' a chodi ofn ar res flaen y gynulleidfa drwy glecian dannedd y pen ceffyl uwch eu pennau! Daeth wyth o ferched hyfryd Glantaf i ganu carolau i ni dan arweiniad eu hathro cerdd Alun Guy a chafwyd deuawd gan Delyth Evans ac Arwel George a phedwarawd wedyn pan ymunodd Peredur Evans a Rhiannon Rees â'r ddeuawd. Terfynwyd y noson yn y bar coffi yn bwyta mins peis a chlebran yn Gymraeg.

# Llenydda yn y Ddinas

Mae'n ddadl hollti blew yn y wasg y dyddiau hyn ynghylch pwysigrwydd y crud ym myd llenyddiaeth Gymraeg. Gyda chryn bryder y cyhoeddwn, felly, fod un arall o lenorion y ddinas, Hefin Wyn, Treganna, wedi cyhoeddi ei nofel gyntaf ar ôl iddi gael cryn ganmoliaeth gan un arall o lenorion y ddinas, Marion Eames, yn Eisteddfod Wrecsam. Nofel am Dewi, un o ieuenctid y ddinas, yw **Bodio**, ac mae'n werth ei darllen. Daw'r awdur yn wreiddiol o'r Preselau, ond mae wedi cartrefu yng Nghaerdydd erbyn hyn, ac yn ŵr i un o ferched y ddinas, sef Elinor Wyn. Bu Hefin yn gweithio'n llawn amser i'r Cymro, ond dealla'r *Dinesydd* ei fod yn awr yn gweithio mwy ar ei liwt ei hun, a gall y boregodwyr glywed ei lais ar y cyfryngau (BBC) yn y bore bach.

# PLANT DAN ANFANTAIS YN CAEL CAM

**Daeth si i glustiau gohebydd i'r Dinesydd bod Awdurdod Addysg De Morgannwg am fynnu anwybyddu dyfodol, fel Cymry Cymraeg, blant o Gymry sydd dan anfantais meddyliol a rhoi addysg gwbl Saesneg iddyn nhw.**

**Mae'r rhieni wedi bod gerbron y Cyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol a'r Seicolegydd Plant Araf ac er iddynt gael derbyniad caredig tu hwnt, a chydymdeimlad, ni roddwyd sicrwydd iddynt bod unrhyw obaith i gael athro neu athrawes i ddysgu'r ddau blentyn sydd dan sylw yn eu mamiaith.**

Mae'n anodd iawn i'r rhieni gredu'r fath dderbyniad, a nhw yn gwybod i'r Awdurdod yng Nghaerdydd ddarparu Addysg Gymraeg i lawer yn eu mamiaith ers deng mlynedd ar hugain bellach.

Nawr, ddeng mlynedd ar hugain ar ôl cymryd y cam holl bwysig hwn, maen nhw am amddifadu plant dan anfantais o'r un hawl sylfaenol.

Ceisio cael gwybodaeth mae'r rhieni hyn. Maen nhw yn gofyn cwestiynau fel a ganlyn:-

1 A oes rhagor o blant dan anfantais meddyliol neu gorfforol o fewn ffiniau ardal y Dinesydd?

2 Faint o rieni i blant dan anfantais sydd wedi bod dan y pwysau ychwanegol o fod wedi gorfod newid iaith eu teulu er mwyn rhoi addysg i'r un bach a anwyd dan anfantais, a beth fu'r canlyniad ym mywyd y teulu?

3 Pwy fyddai â diddordeb i ffurfio grwp o ffrindiau neu gyfeillion i'r plant dan anfantais hyn?

Os gellwch ymateb mewn unrhyw ffordd i'r tri chwestiwn, a fyddech chi mor garedig â rhoi galwad ffôn neu ysgrifennu at un o'r ddwy wraig isod? Fe fyddent yn falch iawn o gael clywed oddi wrthych. Os rhoddwch eich enw a'ch cyfeiriad fe fyddant yn barod iawn i'ch cylchlythyru, neu i roi gwybod ichi am y cyfarfod cyntaf i drafod y ffordd ymlaen.

Yr enwau i gysylltu â nhw yw:-

Mrs Val Owen, 16 Howell's Cres, Llandaf, Ysgrifenyddes Mudiad Plant Dan Anfantais, Caerdydd.

**neu**

Mrs Ethni Jones, 'Penhydd', 118 Heol Dwyrain y Llyn, Parc y Rhath, Caerdydd CF2 5WQ. Ffôn: 755184.

# SALEM, TREGANNA.

Diwedd blwyddyn, diwedd degawd yn wir, a minnau yn edrych ar adroddiad yr Eglwys. Colli aelodau trwy farwolaethau, a rhai teuluoedd wedi symud i ardaloedd eraill. Ennill un neu ddau o aelodau newydd, ond dirywiad amlwg yn rhif yr aelodau yn ystod y 70au. Diwedd 1979 gwelwyd cau Capel yr Annibynwyr ar ein pwys ni yn Severn Road — dim digon o aelodau i gynnal yr achos. Beth fydd hanes Salem ar ddiwedd yr 80au? Cloi'r drws, a chau'r unig gapel Cymraeg yng ngorllewin y ddinas?

Mae'n dibynnu ar ymateb Cymry Cymraeg Caerdydd, yn enwedig y rhai sydd yn byw yn ardaloedd gorllewinol y ddinas — Treganna, Tyllgoed, Llandaf, Pentrebaen, Radur a Sain Ffagan. Bu cynnydd ym mhoblogaeth yr ardaloedd hyn yn ystod y 70au, a lleihad yn aelodaeth Salem. Chi sydd yn cefnogi'r iaith Gymraeg ar eich aelwydydd a'ch ysgolion dyddiol, os ych chi'n chwilio am gapel Cymraeg dewch i gynorthwyo'r ffyddloniaid sydd yn cynnal yr achos yn Salem.

Cewch groeso cynnes yn y cyrddau bore a nos Sul (10.30 a 6 o'r gloch); neu'r Ysgol Sul bore Sul (10.30); neu'r Gymdeithas Lenyddol (Y Gadwyn) sydd yn cwrdd yn fisol yn ystod y gaeaf. Neu beth am gêm Badminton — mae Cwrt yn y Festri. Dewch wir; gyda'n gilydd fe allwn gael adfywiad yn Salem yn ystod yr 80'au.

*E.L.J.*

# Yn y Tabernacl

**I godi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd fe ddechreuwyd gwerthu coffi ar fore Sadwrn, bob Sadwrn am flwyddyn.' Erbyn diwedd y flwyddyn roedd gennym glientèl bach ffyddlon a phenderfynwyd o dan arweiniad Mrs Eiriona Roberts gadw'r cynllun i fynd er mwyn codi arian at achosion da. Mae'r merched sy'n gweini'n ffyddlon bob Sadwrn yn cael hwyl arni ond rhaid cyfaddef mai prin iawn yw'r Cymry sy'n ein cefnogi.**

Nawr mae cynllun newydd ar y gweill ar fore Sadwrn. Cafodd Mr Arwel Hughes syndod i wybod faint o offerynwyr ifainc oedd yn perthyn i'r capel. Galwyd hwy at ei gilydd a daeth criw go lew ynghyd i greu cerddoriaeth er mwyn pleser — sawl ffidil, tsielo, baswn a ffliwt, gitâr a chlarinet, a mawr oedd yr hwyl o dan faton y meistr.

Felly os byddwch yn siopa ar fore Sadwrn, trowch i mewn i'r Tab — coffi a cherddoriaeth am bris rhesymol — 15c. Bargen!

Os oes yna unrhyw offerynnwr ifanc yn aelod yn y capel ac heb glywed am y fenter newydd yma, cysylltwch â Mr Arwel Hughes.

## ADRAN BENTRE'R URDD RHIWBEINA

Cynhaliwyd gwasanaeth llith a charol gan yr Adran yng Nghapel y Methodistiaid yn Rhiwbeina ar nos Lun yr 17 o Ragfyr. Braf oedd gweld y capel yn llawn a chafwyd gwasanaeth hyfryd yng nghwmni'r plant. Wedi'r gwasanaeth aeth pawb i'r festri i gymdeithasu uwchben paned a mins pei. Casglwyd £13 ar ddiwedd y gwasanaeth ac fe'i anfonwyd tuag at Apêl Uned Drawsblannu Arennau'r Ysbyty Brenhinol.

# Y DAITH HIR

**Roedd dydd Sadwrn, Ionawr 5ed yn ddiwrnod mawr i Ken Thompson, disgybl yn y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, oherwydd dyna'r dydd y bu'n cynrychioli ei wlad ar y maes rygbi yng Nghaeredin.**

Dilynodd Ken dri chwaraewr arall o Rydfelen sydd wedi cynrychioli Ysgolion Cymru: Roger Davies (1969 - dan 15), Leighton May (1972 - dan 15 a 1975 - dan 19), Jimmy Lye (1978 - dan 19).

Cyn cael ei ddewis i chwarae ail-reng i Ysgolion Uwchradd Cymru (dan 19) bu raid i Ken chwarae mewn naw gêm brawf. Dechreuodd y daith hir tuag at ei gap ddechrau mis Hydref yng ngêm brawf Ysgolion Uwchradd Pontypridd. Yna, chwarae yn erbyn Ysgolion y Rhondda er mwyn cael tîm i chwarae yn erbyn Aberdar a Merthyr ac ar ôl y gêm honno dewiswyd y tîm i gynrychioli Ysgolion y Cymoedd yn erbyn Ysgolion Caerdydd a'r cylch. Ar ôl y gêm honno dewiswyd pymtheg i chwarae yn erbyn Gwent, ac o'r diwedd cafwyd tîm Dwyrain Cymru.

Chwaraeodd Dwyrain Cymru yn erbyn y Gorllewin a dewiswyd carfan Ysgolion Uwchradd Cymru. Treuliwyd penwythnos yn St. Athan yn ymarfer, ac yna dewiswyd y timau ar gyfer y gêm brawf derfynol ym Mhenybont. Roedd Ken yn y tîm tebygol a chwaraeodd yn ddigon da i bawb sylweddoli ei fod yn gymwys at y swydd o chwarae yn yr ail reng yn erbyn yr Alban.

Oddi ar y prawf terfynol mae'r garfan wedi bod yn ymarfer yn Rhydaman o dan hyfforddiant y Mri John Elgar Williams, John Huw Williams a Huw Powell.

Ar ôl y daith hir hon o dîm ysgolion Pontypridd i dîm Cymru, aeth gyda'n dymuniadau gorau i Gaeredin, ac yno, yn nheyrnas Mynyddog Mwynfawr, gynt, ar Ionawr 5ed eleni, y trechodd y tîm o lanciau Cymru lanciau'r Alban. Gwŷr aeth Gaeredin...

**Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 43 Lower Cathedral Rd, Caerdydd.*